

# > Mesur llwyddiant

# Beth yw llwyddiant

Drwy gydweithio, ac ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, bu'r bartneriaeth yn paratoi ei gweledigaeth i ddangos beth fydd llwyddiant ar Yr Wyddfa erbyn 2030. Nodir sut y byddwn yn cyflawni hyn dros y 5-10 mlynedd nesaf yn y Cynllun Gweithredu.



## 1.
Parchu'r mynydd, pobl, cymunedau a diwylliant yr ardal, a thwristiaeth

Mae llwybrau ar Yr Wyddfa, sy'n cael eu dylunio a'u cynnal yn dda ac yn hawdd i'w ddefnyddio, yn meithrin parch tuag at amgylchedd y mynydd, yn gwydn i newid hinsawdd, yn lleihau creithiau erydiad.

Mae ymweld â'r Wyddfa'n helpu i feithrin parch a dealltwriaeth at bobl, iaith, treftadaeth a diwylliant yr ardal.

Drwy addysg a gwybodaeth mae pobl busnesau a chymunedau'r ardal yn deall yn well beth yw manteision twristiaeth.

Mae'r iaith Gymraeg yn gryf ym mhob agwedd o fywyd ar y mynydd ac yn arwain at ddeall a pharchu treftadaeth, traddodiadau a diwylliant Cymru.



## 2.
Seilwaith ardderchog a gwasanaethau cydlynedig

Mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn sicrhau bod gwybodaeth Yr Wyddfa ar gael i bawb.

Mae gan Yr Wyddfa adnoddau ymwelwyr glân, cyfoes a hygyrch a gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr o safon ragorol.

Caiff seilwaith cludiant integredig ei ariannu'n dda, mae'n addas ar gyfer yr amgylchedd, mae'n ddibynadwy ac mae'n bodloni anghenion trigolion ac ymwelwyr â'r ardal.

## 3.
Economi leol iach a ffyniannus sy'n gwasanaethu trigolion lleol, cymunedau ac ymwelwyr

Mae'r Wyddfa'n lle unigryw ac arbennig gydag economi ffyniannus, integredig a chynaliadwy sy'n dod â budd i bawb.

Mae mwy o bobl yr ardal yn elwa o ofalu am Yr Wyddfa a'i mwynhau, ac maent yn cymryd rhan yn y prosesau hynny.

## 4.
Amgylchedd iach a ffyniannus

Mae cymuned rheoli tir Yr Wyddfa yn cael ei chefnogi ac yn cael cyfle i gynnal prosiectau cynaliadwy ac arloesol sy'n cefnogi amgylcheddau a thirweddau iach a ffyniannus.

Cadwraeth arweiniol ar draws y safle gwarchodedig.

Mae'r Wyddfa yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil a chasglu gwybodaeth.

Mae mentrau'n llwyddo i liniaru, rheoli, a difa rhywogaethau ymledol a lleihau eu heffeithiau dinistriol ar gynefinoedd a rhywogaethau sensitif a bregus.

## 5.
Profiad cynaliadwy o'r radd flaenaf yn y byd i ymwelwyr



Mae trigolion ac ymwelwyr yn dod i fwynhau profiad o'r radd flaenaf yn nhirlun eiconig ac unigryw Yr Wyddfa yn yr hydref a'r gwanwyn, gan sicrhau bod pwysau a buddion yn cael eu cydbwyso trwy gydol y flwyddyn.

Mae gwybodaeth leol gwir amser ynglyn a'r Wyddfa ar gael yn rhwydd i drigolion ac ymwelwyr â'r ardal er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth a'u bod yn ddiogel wrth fwynhau'r mynydd.

Mae ymwelwyr yn mwynhau croeso gwirioneddol Gymreig sy'n eu hysbrydoli i ymweld eto. Maent yn teimlo eu bod wedi cael eu hysbrydoli a'u haddysgu ar ôl ymgysylltu â phobl, natur, treftadaeth a diwylliant yr ardal.